# Adroddiad Grŵp Cyflawni'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Paratowyd gan: Anwen Thomas

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Nod pob prosiect sy'n seiliedig ar lefydd yw mynd i'r afael â'r nodau llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Bydd y fframwaith sy'n seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu gwaith integreiddio a bydd yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldebau, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain trwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp** | Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan |
| **Y Cadeirydd** | **Greg Jones**, Cyngor Sir Ceredigion |

| **Aelodaeth y Grŵp** *(Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)* | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Y Cynghorydd Ann Bowen Morgan, Bethan James, **Carwyn Young**, Carys Huntly, **Cathryn Morgan**, Catrin Evans, Connor Cook, Dai Jones, **Eirlys Lloyd,** Elen James, **Gethin Jones,** Iwan Davies, Joy Lake, **Laurie Hughes**, Rachel Auckland, Rhiannon John, **Rhidian Harries**, Rob Starr, **Sarah Evans,** Sian Salcombe, Steffan Rees<br><u>Tîm Cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:</u><br>**Timothy Bray**, Sara Dafydd, **Teleri Elias,** Lynne Walters, **Anwen** | Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | Hannah Lodder-Rodda, **Wayne Thomas** |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Thomas**, Steffan Gruffudd, **Gaenor Parry** | | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Jina Hawkes, Peter Skitt, **Terri-Ann Patrick**, Nathan Davies, Dr Phil Kloer, Trina Nealon, **Robert Allen**, **Geinor Jones**, **Rhian Rees** | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Catrin Morgan-Jones, Emyr Jones, Hazel Thomas, Laura Cait Driscoll |
| Heddlu Dyfed-Powys | Yr Arolygydd Matthew Howells, Y **Rhingyll Esther Davies** | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies |
| Barcud | Catrin Owen | CAVO | Hazel Lloyd-Lubran, **Teleri Davies** |
| Home-Start | Sharon Morris | Ysgol Bro Pedr | Ffion Davies |
| Banc Bwyd Llanbedr Pont Steffan | Julia Lim | Canolfan Deuluol Llanbedr Pont Steffan | Elin Miles, Jen Leigh |
| Arts4Wellbeing | Mike Hotson, Sara Wentworth | Cymdeithas Tai Wales and West | Rhiannon Ling |
| Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Mandy Williams, Mererid Lewis | Area 43 | Becca Head |
| Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan | Y Cynghorydd Elen Page | Stage Goats | Tracey O'Grady |
| Mentera | Ann Owen | Iechyd a Gofal Gwledig Cymru | Mari Lewis |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP CYFLAWNI**

| **Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Cyflawni: 30.04.2025** |
|---|
| **<u>14.1 Croeso ac ymddiheuriadau</u>**<br>**Nodwyd yr ymddiheuriadau canlynol**: Hannah Lodder, Mari Lewis, Sandra Mitchell a Joy Lake. |

DRAFT

**14.2 Cofnodion a materion sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol (30.01.2025):**
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30.01.2025 yn gywir. Bu i Greg Jones (GJ) groesawu Teleri Elias (TE) wrth iddi ddechrau ar ei rôl fel y Swyddog Partneriaethau. Byddai'n ymgymryd â'r rôl tra byddai Sara Dafydd ar absenoldeb mamolaeth. Cytunwyd bod y camau gweithredu a gofnodwyd yn y cyfarfod diwethaf naill ai wedi'u cynnwys ar yr agenda neu y byddent yn cael eu cario drosodd i'r cyfarfod nesaf.

**14.3 Eitem sefydlog: Diweddariad am gyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (03.03.2025)**
Rhoddodd Tim Bray y diweddariad isod:
- Bu aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 3 Mawrth i rannu eu barn am benderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru i gau'r Ganolfan yn Ynyslas. Rhoddodd y Cadeirydd sicrwydd i'r rhai a oedd yn bresennol y byddai eu hadborth yn cael ei drosglwyddo i'r sefydliad perthnasol.
- Cadarnhaodd TB fod y tîm partneriaethau wrthi ar hyn o bryd yn prynu *gazebo* a deunyddiau hyrwyddo y byddai modd eu defnyddio wrth fynd i nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau i hyrwyddo Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd bwletin wedi'i greu a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor i roi gwybod i'r partneriaid a'r cyhoedd am y digwyddiadau y byddai tîm y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn mynd iddyn nhw. Byddai hyn hefyd yn rhoi'r cyfle i'r partneriaid a'r cyhoedd gynnig awgrymiadau. Byddai'r ddolen berthnasol yn cael ei rhannu unwaith y byddai'r bwletin ar gael.

**Cam Gweithredu: Byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r ddolen at y Calendr Digwyddiadau, unwaith y byddai ar gael, fel y gellid cefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Cynllun Llesiant.**
- Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am y digwyddiad trafnidiaeth gymunedol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2024. Byddai fideo yn cael ei baratoi i roi crynodeb o'r gweithdy a byddai'n cael ei rannu pan fyddai'n barod.
- Roedd y Bwrdd Partneriaethau Rhanbarthol yn ystyried trefniadau llywodraethu'r bwrdd a'r ffyrdd yr oedd yn ymwneud â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd cadeiryddion y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cyfarfod i drafod hyn a byddent yn mynd ati i ymgysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Awgrymodd Barry Rees y gellid uno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan y byddai hyn yn cynorthwyo â phresenoldeb yn genedlaethol ac yn golygu cynnal llai o gyfarfodydd a fyddai'n ymdrin â phynciau tebyg. Roedd darn o waith yn cael ei wneud er mwyn ystyried manteision dod â chynrychiolwyr o Sir Gaerfyrddin, Powys, Sir Benfro a Cheredigion at ei gilydd yn ogystal â'r holl oblygiadau.
- Rhoddodd Russell Hughes-Pickering gyflwyniad ar 'Ffordd Newydd o Weithio' Cyngor Ceredigion gan gynnwys gweithio hybrid a materion yn ymwneud ag adeiladau. Byddai'r cyfleoedd i ddatblygu'r posibiliadau ynghylch adeiladau ac adnoddau ar y

cyd yn cael eu hystyried cyn cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin. Byddai grŵp ffocws yn cael ei greu a fyddai'n canolbwyntio ar Aberystwyth fel y gellid archwilio'r cyfleoedd posibl ar gyfer ffyrdd newydd o weithio a rhannu adnoddau.
- Ni fyddai'r Grŵp Hinsawdd a Natur yn cwrdd am y tro hyd nes y byddai Cadeirydd newydd yn cael ei benodi. Yn y cyfamser, roedd Ceredigion yn gweithio ochr yn ochr â Sir Gaerfyrddin i ddatblygu a chwblhau'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd.
- Byddai cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei gynnal ar 2 Mehefin trwy Teams.

**14.4 Adolygiad o'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid ledled y sir**

Rhoddodd Gethin Jones (GJO) y wybodaeth ddiweddaraf am faterion cenedlaethol a lleol yn ogystal â throsolwg o'r digwyddiadau a fyddai'n cael eu cynnal.
Bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ddeddfwriaeth newydd ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Byddai'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys cyflwyno fframwaith statudol newydd ar gyfer gwaith ieuenctid a fyddai'n effeithio ar awdurdodau lleol. Am ragor o wybodaeth, dilynwch y ddolen isod:
Datganiad Ysgrifenedig: Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc (7 Hydref 2024) | LLYWODRAETH. CYMRU

Fel rhan o'r adroddiad, amlinellwyd tri maes allweddol:
1. Diffiniad statudol ar gyfer gwaith ieuenctid sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i weithwyr ieuenctid gofrestru â chyngor y gweithlu addysg.
2. Dull newydd o ran hawliau a fydd yn cynnwys hawliau plant a disgwyliad cenedlaethol ynghylch yr hyn y dylai pobl ifanc fod yn medru cael mynediad iddo yn eu cymunedau.
3. Gofyniad statudol i Awdurdodau Lleol gwblhau cynlluniau 5 mlynedd – bydd angen i hyn ystyried dull cydweithredol sy'n cynnwys phobl ifanc, sefydliadau sy'n bartneriaid a gwasanaethau gwirfoddol.

Dywedodd GJO fod y Cyngor eisoes wedi cael trafodaethau gyda'r partneriaid allweddol i drafod y newidiadau yn y ddeddfwriaeth a'i fod wedi dechrau ystyried yr hyn oedd angen ei wneud i ddatblygu'r cynllun 5 mlynedd. Roedd ffyrdd o ymgysylltu â'r sector ieuenctid ehangach yn cael eu hystyried.

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor Ieuenctid bleidlais 'Rhoi Dy Farn' a gwnaeth dros 2000 o bobl ifanc yng Ngheredigion gymryd rhan. Cafodd 8 o 'bynciau llosg' eu nodi fel meysydd pwysig yr oedd angen canolbwyntio arnynt. Y pwnc a ddaeth i'r brig oedd 'Cyfleoedd Gwaith' a'r cyfleoedd sydd ar gael i gefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i waith ac aros yng Ngheredigion. Byddai'r Cyngor

Ieuenctid yn awr yn paratoi cyfres o gwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn i banel o bobl a wahoddir i'r digwyddiad 'Pawb a'i Farn' ym mis Gorffennaf.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc aros yng Ngheredigion a manteisio ar gyfleoedd fel prentisiaid.
Dywedodd Cathryn Morgan (CM) fod yr is-grŵp Tlodi yn datblygu siarter 'Gwaith Teg' a'i fod yn gwneud y gwaith hwnnw ar y cyd â gweithwyr proffesiynol ym maes Adnoddau Dynol a Chaffael sy'n gweithio i amrywiaeth o sefydliadau. Byddai'r Siarter yn cynnwys gwybodaeth am ddatblygu prentisiaethau a'u gwneud yn fwy hygyrch i unigolion. Byddai'r Siarter hon yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Mehefin lle byddai cyfle i'r sefydliadau ymrwymo iddi. Byddai unrhyw adborth oddi wrth bobl ifanc ynglŷn â'r Siarter hon yn fuddiol. Cytunodd GJO i rannu'r Siarter Gwaith Teg gyda'r Cyngor Ieuenctid fel y gallem dderbyn adborth.

Gweler isod ganlyniadau 'Rhoi Dy Farn 2025'

Rhoi Dy Farn Flyer Results 2025 - Eng.pd

Cadarnhaodd GJO fod Promo Cymru wedi cael ei gomisiynu i ddatblygu prosiect a fyddai'n canolbwyntio ar y bygythiadau ar-lein yr oedd pobl ifanc yn eu hwynebu. Byddai hyn yn cael ei ariannu drwy gyllid y Ddyletswydd Trais Difrifol. Roeddent wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd prawf ac roeddent wedi datblygu cwestiynau a oedd wedi'u hanelu at bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol. Roedd cyfle i gymryd rhan yn yr arolwg drwy ddilyn y ddolen isod:
Arolwg Pobl Ifanc – Bywyd Ar-lein (Saesneg)
Arolwg Gweithwyr Proffesiynol – Bywyd Ar-lein (Saesneg)
Roedd cyllid penodol wedi'i dderbyn drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Heddlu Dyfed-Powys. Roedd y Cyngor yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu i baratoi cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau er mwyn cryfhau'r gweithgareddau craidd penodol sydd eisoes ar waith yn nhrefi Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberystwyth ac yn y cymunedau gwledig.

Byddai'r Wythnos Gwaith Ieuenctid Genedlaethol yn cael ei chynnal rhwng 23 a 30 Mehefin. Roedd amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cael eu trefnu i dynnu sylw at arferion da ac i rannu straeon newyddion cadarnhaol.

DRAFT

**CAM GWEITHREDU- Byddai Gethin Jones yn rhannu gwybodaeth am ymgyrch 'Rhoi dy Farn 2025' Cyngor Ieuenctid Ceredigion a byddai'n rhannu'r ddolen at 'Arolwg Bywyd Ar-lein Pobl Ifanc' â'r grŵp.**

**<u>14.5 Benthyg Cymru</u>**
Yn ddiweddar, roedd Eirlys Lloyd (EL) wedi cyfarfod â Benthyg Cymru yn ystod cynhadledd creu lleoedd ar gyfer canol trefi ac roedd o'r farn y gallai'r wybodaeth fod yn ddefnyddiol i'r grŵp hwn.

Menter ddi-elw yw Benthyg Cymru sy'n cefnogi cymunedau i ddatblygu model 'Llyfrgell y Pethau' sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion lleol. Roedd yna 25 o lyfrgelloedd yng Nghymru ond nid oedd yr un yng Ngheredigion wedi'i chofrestru â Benthyg Cymru. Roedden nhw'n chwilio am le yn Llanbedr Pont Steffan, Aberystwyth neu Aberporth ac roeddent yn gobeithio gweithio ochr yn ochr â rhywle lle'r oedd caffi atgyweirio eisoes yn bodoli. Roedd EL wedi gofyn iddynt ddatblygu gweminar y byddai modd ei rhannu ag eraill er mwyn tynnu sylw at y fenter.
**CAM GWEITHREDU: Byddai EL a TE yn gwahodd Benthyg Cymru i ddod i un o gyfarfodydd y dyfodol i roi trosolwg o'r gwaith.**

Dywedodd Geinor Jones (GEJ) fod siop hinsawdd wedi'i lleoli yn Llanbedr Pont Steffan ac efallai y byddai modd iddi gydweithio â Benthyg Cymru. Ychwanegodd EL fod adeiladau gwag hefyd yn cael eu hystyried fel lleoliadau posibl.

**<u>14.6 Plismona yn y Gymdogaeth – Diweddariad am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan</u>**
Dywedodd y Rhingyll Esther Davies (ED) mai'r ymddygiad gwrthgymdeithasol mwyaf cyffredin yn Llanbedr Pont Steffan oedd difrod troseddol, graffiti, curo drysau a defnyddio cyffuriau ac alcohol. Roedd hyn oll yn digwydd yn bennaf yn y dref ond hefyd roedd yn digwydd ar dir y Brifysgol. Roedd y Tîm Plismona yn y Gymdogaeth wedi creu ymchwiliad risg yng nghyswllt ymddygiad gwrthgymdeithasol a oedd yn cofnodi'r holl ddata, yr adroddiadau a'r cofnod o'r camau gweithredu perthnasol ar un gronfa ddata. Bu'r Tîm Plismona yn y Gymdogaeth yn gweithio gydag amrywiol bartneriaid gan gynnwys yr ysgolion, cyngor y dref, y rhieni a'r gwasanaethau ieuenctid. Roedd llythyron yn rhybuddio yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u paratoi a'u rhoi i blant penodol er mwyn ceisio eu haddysgu.

Roedd y cynllun plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau bellach ar waith. Roedd y cynllun hwn yn defnyddio'r model 'SARA' ac roedd yn defnyddio swyddogion sydd wedi'u hyfforddi i gynnal arolygon safle a datblygu mesurau diogelwch i atal troseddu. Roedd holiadur ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi'i ddosbarthu o amgylch Llanbedr Pont Steffan er mwyn casglu

DRAFT

adborth am brif bryderon pobl y dref a chynorthwyo â’r gwaith o ymateb i bryderon. Roedd cynllun Llywodraeth Cymru i dargedu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn parhau eleni. Roedd Aberaeron wedi’i nodi fel ardal broblemus y llynedd ac roedd cais wedi'i wneud i ganolbwyntio ar Lanbedr Pont Steffan eleni.
**CAM GWEITHREDU: Byddai ED yn anfon yr holiadur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol at TE fel y gellid ei ddosbarthu’n eang.**

Roedd cyllid o £19,000 wedi'i ddarparu i'r heddlu i fynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan, ac roedd hyn yn cynnwys gweld swyddogion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar batrôl ar ddydd Gwener a dydd Sadwrn yn ogystal â mwy o ymwneud â'r gymuned.

Dywedodd ED fod adborth gan y cymunedau'n dangos eu bod yn teimlo bod prinder gwasanaethau ieuenctid yn Llanbedr Pont Steffan a dim 'lle diogel' i bobl ifanc dreulio eu hamser. Roedd Area 43 Cymru wedi derbyn cyllid i agor caffi ieuenctid yn Llanbedr Pont Steffan, a fyddai’n agor yn ddiweddarach eleni.

Ychwanegodd GJ fod y ganolfan les hefyd yn gobeithio cynnal gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, yn benodol yn y lle cyntaf, clybiau ar ôl ysgol. Nododd CM y byddai digwyddiad 'Gadewch i ni siarad' yn cael ei gynnal ar 7 Mai yn Aberporth a’r bwriad oedd dod â gweithwyr proffesiynol a phobl sydd â phrofiad byw at ei gilydd. Y gobaith oedd y byddai digwyddiad penodol ar gyfer pobl ifanc yn cael ei drefnu yng nghanolfan les Llanbedr Pont Steffan.

Gofynnodd GJ a oedd dwyn o siopau yn dal i gael ei adrodd fel problem yn Llanbedr Pont Steffan. Cadarnhaodd ED fod y duedd hon yn parhau a bod cymorth a chyngor am ddiogelwch wedi'i ddarparu i fusnesau lleol.

**CAM GWEITHREDU: Byddai’r wybodaeth ddiweddaraf am Blismona Bro ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan yn parhau fel eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol.**
**14.7 Dull Systemau Cyfan ar gyfer y rhaglen Pwysau Iach – Ymgysylltu â'r Gymuned / Mapio Asedau**
Cadarnhaodd GEJ eu bod wedi bod yn gweithio gyda Phrosiect Dewi i ddarparu hyfforddiant mapio asedau ar ffurf 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' gydag is-grwpiau Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bu 15 o bobl yn bresennol. Gofynnwyd i'r sawl a fu’n bresennol fynd ati i hwyluso sesiynau mapio asedau a fyddai’n canolbwyntio ar fynediad at fwyd a gofynnwyd iddynt anfon eu canfyddiadau at y tîm. Y gobaith oedd y byddai modd nodi cyfleoedd i weithio gyda chymunedau.

Diolchodd GEJ i CM am greu cysylltiadau rhwng y sefydliadau bwyd. Cadarnhaodd GEJ fod ei thîm bellach yn trefnu rhagor o gyfarfodydd gyda'r sefydliadau hynny. Yn ogystal, roedd GEJ wedi cofrestru ar gyfer y Gweithdy Arloesi ynghylch "Tyfu, Coginio, a Bwyta Gyda'n Gilydd" yn Llangybi ddiwedd mis Mai.

Dywedodd GEJ fod adroddiad Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i gyhoeddi y diwrnod blaenorol, a bod bwyd yn rhan annatod o'r adroddiad. Cafodd Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru ei chyhoeddi ar yr un diwrnod.

**14.8 Trafodaeth am y Blaengynllun Gwaith**

Dywedodd GJ fod trafodaethau cyffredinol ynglŷn â'r blaengynllun gwaith wedi digwydd rhwng y cyfarfodydd. Gofynnwyd a oedd y Grŵp Llesiant yn Llanbedr Pont Steffan yn barod i symud ymlaen i ganolbwyntio ar faes gwahanol neu a oedd yna rai agweddau ar y maes presennol nad oeddent wedi'u harchwilio eto.

Dywedodd Teleri Davies (TD) fod yr is-grŵp yn dibynnu'n helaeth ar bresenoldeb swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r sefydliadau sy'n bartneriaid ond nad oedd unrhyw wirfoddolwyr na grwpiau cymunedol yn Llanbedr Pont Steffan yn cael eu cynrychioli ar y grŵp. Dywedodd GJ fod y sefyllfa o ran presenoldeb wedi'i hadolygu'n ddiweddar ond cytunodd y byddai'n fuddiol sicrhau mwy o ymgysylltiad â grwpiau lleol a fyddai'n gallu ymrwymo i ddod i gyfarfodydd yn rheolaidd.

Eglurodd TB rôl Grwpiau Llesiant sy'n Seiliedig ar Lefydd a chyflwynodd amcanion y Cynllun Llesiant a oedd yn dod o dan adain y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Bu iddo hefyd atgoffa'r partneriaid o'r blaenoriaethau allweddol a'r nodau tymor byr. Pwysleisiodd TB y byddai'r gwersi a ddysgwyd gan Grŵp Llesiant Llanbedr Pont Steffan yn cael eu cyflwyno ledled y sir, a dyna oedd pwrpas sefydlu Grwpiau sy'n Seiliedig ar Lefydd. Roedd teclyn olrhain camau gweithredu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i adolygu a nodwyd bod rhan fwyaf y camau gweithredu ar gyfer grŵp Llanbedr Pont Steffan wedi'u cwblhau. Awgrymodd GJ y gellid asesu sut yr oedd gweithgareddau'r grŵp wedi dylanwadu ar y gwaith yn Llanbedr Pont Steffan a'r effaith ar y gymuned leol.

Pwysleisiodd CM yr angen i sicrhau bod yr is-grŵp yn gweithio gyda phobl Llanbedr Pont Steffan gan ganolbwyntio ar eu hanghenion.

**CAMAU GWEITHREDU: Byddai unrhyw adborth neu sylwadau am y blaengynllun gwaith yn cael eu hanfon at partneriaethau@ceredigion.gov.uk fel y gallai'r Cadeirydd eu hystyried.**

**14.9 Adborth ynglŷn â Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan**

Cadarnhaodd Robert Allen (RA) fod Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan wedi cael ei chynnal ar 26 Chwefror yng Nghanolfan Lles Llanbedr Pont Steffan rhwng 10am a 3pm. Bu 27 o dimau yn rhan o'r digwyddiad ac roedd cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Cyngor Sir Ceredigion a'r 3ydd sector yn bresennol. Cafodd y sawl a oedd yn bresennol y cyfle i gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol gan gynnwys tasgau ymwybyddiaeth ofalgar. Roedd yr adborth a gafwyd yn dangos bod rhan fwyaf y rhai a oedd yn bresennol dros 56 oed.

Gwnaed llawer iawn o waith hyrwyddo cyn y digwyddiad trwy'r cyfryngau cymdeithasol, rhannu taflenni ac ymweld â sesiynau galw heibio.

Gwnaeth 20 o'r rhai a oedd yn bresennol gwblhau'r ffurflen werthuso a'i dychwelyd. Roedd yr adborth yn gadarnhaol a rhoddwyd nifer o sgoriau '5 seren'. Roedd y sawl a ddaeth i'r digwyddiad o'r farn ei fod yn gyfle da i ymgysylltu â'r gwasanaethau a byddai modd iddynt wedyn rannu gwybodaeth â'r rhai nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Pe byddai'r digwyddiad yn cael ei gynnal eto yn y dyfodol, awgrymwyd y byddai'n werth darparu lluniaeth a sicrhau bod yr holl stondinau wedi'u lleoli mewn un ystafell.

Dywedodd GJ y byddai'n fuddiol trefnu'r digwyddiad ar ddiwrnod lle byddai nifer fawr o bobl sy'n rhan o'r cynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff yn y ganolfan. Awgrymodd GJ y gallai'r digwyddiad hwn gael ei gynnal yn rheolaidd. Ychwanegodd RA fod digwyddiad tebyg ar raddfa ychydig yn llai yn cael ei gynnal yn Aberporth.

Dywedodd Laurie Hughes (LH) fod ysgolion uwchradd wedi dechrau trefnu digwyddiadau tebyg gyda'r hwyr fel y gallai teuluoedd drafod llesiant. Cafwyd adborth cadarnhaol. Dywedodd RA y byddai ganddo ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r digwyddiadau yn yr ysgolion yn y dyfodol. Gofynnwyd a fyddai modd i RA anfon rhestr o'r rhai a fu'n bresennol yn Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan at LH. Dywedodd LH fod sawl gwasanaeth, gan gynnwys dietegydd, swyddogion o'r Cynllun Ysgolion Iach, a gweithwyr CAMHS, wedi bod yn bresennol yn y digwyddiad llesiant cyntaf ar gyfer ysgolion uwchradd.

**CAM GWEITHREDU: Byddai RA yn anfon rhestr o'r rhai a fu'n bresennol yn sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan at TE a LH.**

**<u>14.10 Eitem sefydlog: Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles</u>**

Rhoddodd Rhian Rees (RR) gyflwyniad am yr Uwchgynhadledd Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant a gynhaliwyd ar 20 Mawrth. Gweler y manylion isod:

SMfHW Summit
summary presentatio

Gofynnodd CM a oedd gan y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant gynllun gweithredu i dargedu meysydd penodol megis y ddarpariaeth Pryd ar Glud. Cadarnhaodd RR y byddai’r model yn cynnwys elfennau o’r gwahanol ffrydiau gwaith ond ni fyddai’n canolbwyntio'n benodol ar elfennau megis Pryd ar Glud. Fodd bynnag, byddai’r adborth ynghylch yr angen am y ddarpariaeth hon yn cael ei ystyried. Roedd gwirfoddoli hefyd yn agwedd yr oedd y model yn bwriadu canolbwyntio arni er mwyn annog mwy o bobl i wirfoddoli a chefnogi cymunedau sy'n heneiddio.

**CAM GWEITHREDU: Yn dilyn y cyfarfod, byddai’r Tîm Partneriaethau yn rhannu dogfen briffio ynghylch y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant gyda'r grŵp.**

**<u>14.11 Diweddariadau gan y Partneriaid / Unrhyw Fater Arall</u>**

Rhannodd RR fanylion Prosiect Llwybr Cyfeirio Celfyddydau Hywel Dda, a oedd yn cefnogi pobl yng nghanol Ceredigion, de Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin a fyddai’n mynd i weld meddygon teulu yn rheolaidd am fod ganddynt gyflyrau cronig, poen, ymdeimlad o ynysu cymdeithasol neu heriau iechyd meddwl. Roedd y rhaglen yn defnyddio celfyddydau gweledol, crefftau a chyfryngau cymysg i hyrwyddo iechyd a llesiant ac roedd y cyfan yn nwylo sefydliadau celfyddydol profiadol. Yn Llanbedr Pont Steffan, *Arts for Wellbeing* oedd yn darparu’r gweithgareddau a byddai hyn yn parhau tan fis Awst. Byddai adroddiad terfynol ar ganlyniadau'r rhaglen yn cael ei baratoi gan *Tri Tech*, gan ystyried yr effaith a’r hyn a ddysgwyd. Roedd disgwyl y byddai’r adroddiad hwn ar gael i'w rannu ym mis Ionawr 2026.

**14.12 Dyddiad y cyfarfod nesaf: Rhwng 14:00 a 16:00 ar 17 Gorffennaf 2025**

| **Crynodeb o'r Camau Gweithredu:** | |
|---|---|
| **1.)** | Byddai Chesca Ross (CAVO) yn cael ei gwahodd i gyfarfod nesaf y Grŵp Cyflawni i roi cyflwyniad am yr Hacathon Trafnidiaeth Gymunedol.<br>Byddai hyn yn cael ei symud ymlaen i'r cyfarfod nesaf. |
| **2.)** | Byddai’r Tîm Partneriaethau yn rhannu'r ddolen at y Calendr Digwyddiadau, unwaith y byddai ar gael, fel y gellid cefnogi’r gwaith o hyrwyddo’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a’r Cynllun Llesiant. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **3.)** | Byddai Gethin Jones yn rhannu gwybodaeth am ymgyrch 'Rhoi dy Farn 2025' Cyngor Ieuenctid Ceredigion a byddai'n rhannu'r ddolen at 'Arolwg Bywyd Ar-lein Pobl Ifanc' â'r grŵp. |
| **4.)** | Byddai Eirlys Lloyd a Teleri Elias yn gwahodd Benthyg Cymru i ddod i un o gyfarfodydd y dyfodol i roi trosolwg o'r gwaith. |
| **5.)** | Byddai Esther Davies yn anfon yr holiadur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol at Teleri Elias fel y gellid ei ddosbarthu'n eang. |
| **6.)** | Byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am Blismona Bro ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Llanbedr Pont Steffan yn parhau fel eitem sefydlog ar agendâu cyfarfodydd y dyfodol. |
| **7)** | Byddai unrhyw adborth neu sylwadau am y blaengynllun gwaith yn cael eu hanfon at partneriaethau@ceredigion.gov.uk fel y gallai'r Cadeirydd eu hystyried. |
| **8.)** | Byddai Robert Allen yn anfon rhestr o'r rhai a fu'n bresennol yn Sioe Iechyd a Llesiant Llanbedr Pont Steffan at Teleri Elias a Laurie Hughes. |
| **9.)** | Yn dilyn y cyfarfod, byddai'r Tîm Partneriaethau yn rhannu dogfen briffio ynghylch y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant gyda'r grŵp. |

DRAFT